# Cymru heb rwystrau i bobl â cholled golwg

RNIB Cymru

Golwg gwahanol

**Maniffesto RNIB Cymru ar gyfer etholiadau 2021 Senedd Cymru**



# Cymru heb rwystrau i bobl â cholled golwg

## Maniffesto RNIB Cymru ar gyfer etholiadau 2021 Senedd Cymru

### Crynodeb o geisiadau'r maniffesto

1. **Rhoi terfyn ar golled golwg y gellir ei osgoi**
2. **Goresgyn y rhwystrau amgylcheddol mae pobl ddall ac â golwg rhannol yn eu hwynebu**
3. **Mynd i'r afael â'r loteri cod post cysylltiedig â gwasanaethau adfer golwg**
4. **Ymgorffori arferion gwybodaeth hygyrch yn y GIG a gwasanaethau cyhoeddus ehangach**
5. **Arwain y ffordd ym mholisi cydraddoldeb y DU drwy ddiwygio'r modd mae'r sector cyhoeddus yn ymgysylltu â phobl â cholled golwg, a phobl anabl eraill**

Mae'r materion sy'n cael eu trafod yn y maniffesto hwn yn effeithio ar bobl real a bydd ein ceisiadau'n gwneud byd o wahaniaeth i'w bywydau.

### Am RNIB Cymru

RNIB Cymru yw'r sefydliad mwyaf i bobl â cholled golwg yng Nghymru. Rydym yn darparu cefnogaeth, cyngor a gwybodaeth i'r 121,000 o bobl sy'n byw gyda cholled golwg ledled Cymru, a'u teuluoedd, eu ffrindiau a'u gofalwyr. Rydym yn ymgyrchu dros welliannau i wasanaethau a chodi ymwybyddiaeth o'r problemau mae pobl ddall ac â golwg rhannol yn eu hwynebu. Rydym yn cefnogi ac yn grymuso pobl sydd wedi cael eu heffeithio gan golled golwg i wella eu bywydau a herio anghydraddoldeb. Rydym eisiau arwain y gwaith o greu Cymru heb rwystrau ar gyfer pobl â cholled golwg

### Beth rydym yn ei wneud

- Cefnogi plant ac oedolion dall ac â golwg rhannol ledled Cymru i fyw bywydau llawn ac annibynnol. Rydym yn helpu i greu mwy o gyfleoedd iddynt fyw y bywyd maent eisiau ei fyw.
- Cefnogi pobl sydd wedi cael diagnosis newydd o golled golwg i ganfod eu bywydau eto.
- Darparu cyngor am fudd-daliadau lles ac am sicrhau a chadw cyflogaeth, a'r hyfforddiant a'r offer priodol.
- Trawsgrifio llyfrau a deunyddiau eraill i fod ar gael ar ffurf sain, braille a phrint mawr.
- Ymgyrchu dros welliannau i wasanaethau a grymuso miloedd o bobl sydd wedi'u heffeithio gan golled golwg i herio anghydraddoldeb.
- Gweithio i atal osgoi colled golwg.

# Cynnwys


4 **Cyflwyniad**

5 **Ein ceisiadau polisi:**

5 **1. Rhoi terfyn ar golled golwg y gellir ei osgoi**
Pryderon
Datrysiadau
Ceisiadau allweddol

8 **2. Goresgyn y rhwystrau amgylcheddol mae pobl ddall ac â golwg rhannol yn eu hwynebu**
Pryderon
Datrysiadau
Ceisiadau allweddol

12 **3. Mynd i'r afael â'r loteri cod post cysylltiedig â gwasanaethau adfer golwg**
Pryderon
Datrysiadau
Ceisiadau allweddol

16 **4. Ymgorfforі arferion gwybodaeth hygyrch yn y GIG a gwasanaethau cyhoeddus ehangach**
Pryderon
Datrysiadau
Ceisiadau allweddol

19 **5. Arwain y ffordd ym mholisi cydraddoldeb y DU drwy ddiwygio'r modd mae'r sector cyhoeddus yn ymgysylltu â phobl â cholled golwg, a phobl anabl eraill**
Pryderon
Datrysiadau
Ceisiadau allweddol

# Cyflwyniad

Bydd chweched tymor Senedd Cymru yn dechrau yn erbyn cefndir o bandemig byd-eang y coronafeirws. Y dasg o flaen y Senedd hon fydd ailadeiladu Cymru yn dilyn y digwyddiadau digynsail a'i rhagflaenodd. Wrth i ni edrych tua'r dyfodol, y cwestiwn allweddol i Lywodraeth nesaf Cymru fydd:

Sut gallwn ni greu normal newydd sy'n gweithio i bawb?

Mae COVID-19 wedi gwaethygu'r problemau mae pobl ddall ac â golwg rhannol yn eu hwynebu, ond mae hefyd wedi tynnu sylw at rai o agweddau gorau ein cymdeithas ni. Gall yr haelioni ysbryd hwnnw sbarduno creu cymdeithas fwy cyfartal a chynhwysol ar gyfer pobl â cholled golwg a phobl anabl eraill.

Nid yw gwir raddfa canlyniadau'r pandemig wedi dod yn gwbl glir eto. Yr hyn sy'n glir yw y bydd y digwyddiad unwaith mewn cenhedlaeth hwn yn cael effaith sylweddol ar wariant cyhoeddus. Felly mae'n hanfodol ein bod yn defnyddio ein hadnoddau mor effeithlon ac mor gost-effeithiol â phosib.

Mae tua 121,000 o bobl yn byw â cholled golwg yng Nghymru heddiw a bob dydd mae 13 yn rhagor o bobl yn dechrau colli eu golwg. [1] Mae'r costau blynyddol i economi Cymru yn gysylltiedig â cholled golwg, yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol, yn dod i £151 miliwn a £263 miliwn yn eu trefn. [2] Mae hyn yn cynnwys costau oherwydd cyfraddau cyflogaeth is a darpariaeth gofal ddi-dâl. Amcangyfrifir bod y gostyngiad cysylltiedig mewn iechyd a lles oherwydd byw gyda cholled golwg yn dod i gyfanswm o £1 biliwn bob blwyddyn yng Nghymru. [3]

Mae'r maniffesto hwn yn datgan y camau allweddol sydd eu hangen i wneud Cymru'n gymdeithas fwy cynhwysol: cymdeithas heb rwystrau sy'n grymuso pobl â cholled golwg i fyw yn annibynnol; lle mae gwasanaethau iechyd yn atal colled golwg y gellir ei osgoi a chefnogaeth gofal cymdeithasol amserol pan nad yw hynny'n digwydd; lle mae anghenion pobl ddall ac â golwg rhannol yn cael eu hystyried a'u llais yn cael ei werthfawrogi mewn prosesau gwneud penderfyniadau.

Mae'r camau'n syml ac yn ymarferol, y costau'n gymharol gymedrol, ond byddai'r budd i gymdeithas yn bellgyrhaeddol a dwys. Gyda phoblogaeth yn heneiddio a disgwyl i nifer y bobl â cholled golwg yng Nghymru gynyddu fwy nag 20 y cant yn ystod y 10 mlynedd nesaf, bydd cost peidio â gweithredu, i bobl ac yn economaidd, yn ddifrifol.

# Ein ceisiadau polisi

**Er mwyn ein helpu i greu Cymru heb rwystrau ar gyfer pobl â cholled golwg, mae RNIB Cymru yn galw ar Lywodraeth nesaf Cymru i wneud y canlynol:**

## 1. Rhoi terfyn ar golled golwg y gellir ei osgoi

Cyflymu'r gwaith o drawsnewid gwasanaethau gofal llygaid, gan arwain ar ddatblygu cynllun gweithlu cenedlaethol a sicrhau bod gan fyrddau iechyd gynllun gwelliant clir er mwyn cyrraedd y targedau sydd wedi'u datgan yn y Mesurau Gofal Llygaid.

Mewn clinigau llygaid ledled Cymru, mae llawer gormod o gleifion sy'n wynebu risg yn aros yn rhy hir am eu hapwyntiadau. Mae oedi gydag apwyntiadau hanfodol neu maent yn cael eu canslo, gan achosi i gleifion ddioddef colled golwg anadferadwy a fyddai wedi gallu cael ei osgoi gyda thriniaeth amserol.

"Roeddwn i ar fin cael chwalfa nerfol yn sicr. Mae'n brofiad eithaf trawmatig bod yng nghanol triniaeth ac wedyn mae'n cael ei gohirio, ac nid am ryw wythnos, fe all fod yn ddau fis. A phan mae eich golwg chi yn y fantol, rydych chi'n meddwl 'ai dyna'r apwyntiad sy'n gwneud i mi gadw fy olwg neu'n gwneud i mi ei golli?"

Yn 2018, cyflwynodd Llywodraeth Cymru Fesurau Gofal Llygaid ar gyfer Cleifion Allanol y GIG mewn Offthalmoleg sy'n blaenoriaethu pob claf newydd a dilynol yn seiliedig ar eu hangen clinigol h.y. blaenoriaeth a brys y gofal mae pob claf ei angen.

Blaenoriaeth yw'r risg o niwed yn gysylltiedig â chyflwr llygaid claf os methir y dyddiad adolygu targed. Brys yw pa mor fuan y dylid gweld y claf hwnnw o ystyried y cyflwr presennol a/neu'r risg o ddatblygiad yn y cyflwr. Mae cleifion yn gael dyddiad targed unigol ar gyfer pryd dylid eu gweld.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi data Byrddau Iechyd misol am gleifion allanol offthalmoleg a aseswyd fel rhai'n wynebu risg o niwed anadferadwy neu ganlyniad niweidiol sylweddol os methir eu dyddiad targed (Ffactor Risg Iechyd R1) ers mis Mehefin 2019. Mae'r data'n cofnodi cleifion a welwyd oddi mewn i'w dyddiad targed, neu o fewn cyfnod o amser 25 y cant y tu hwnt i'w dyddiad targed.

Mae cyhoeddi'r data hyn wedi bod yn gam mawr ymlaen i wneud Byrddau Iechyd yn fwy atebol am ddarparu gwasanaethau gofal llygaid. Fodd bynnag, mae pandemig y coronafeirws wedi golygu bod cyhoeddi'r data hyn wedi cael ei ohirio ers mis Chwefror tan fis Rhagfyr 2020. Mae cyhoeddi data am Ffactorau Risg Iechyd R2 (risg o niwed anadferadwy neu ganlyniad niweidiol os methir y dyddiad targed) ac R3 (dim risg o niwed sylweddol na chanlyniadau niweidiol) hefyd yn angenrheidiol er mwyn cael darlun cywir.

## Ein pryderon allweddol:

- Ym mis Gorffennaf 2019, amlinellodd Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Senedd bryderon difrifol am ddiffyg cynnydd byrddau iechyd gyda lleihau amseroedd aros am apwyntiadau dilynol cleifion allanol a darparodd gyfres o argymhellion i roi sylw i hyn.[4]
- Ond eto mae tystiolaeth yn dangos bod y cynnydd wedi bod yn araf. Ym mis Mai 2020, mae mwy na 40 y cant o gleifion R1 (y rhai sy'n wynebu'r risg fwyaf o niwed anadferadwy) yn aros y tu hwnt i'w dyddiad targed diogel yn glinigol. [5]
- Ym mis Rhagfyr 2019, roedd 74 y cant o'r cleifion ar y rhestr aros wedi cael eu neilltuo fel R1 HRF. Nid yw'n glir sut bydd gofal cleifion yn cael ei flaenoriaethu pan mae bron i dri chwarter y cleifion allanol yn yr un categori uchaf. Mae hyn yn codi cwestiynau am flaenoriaethau yng nghategori R1, a hefyd ymhlith cleifion lefel R2 ac R3.
- Mae maint cyffredinol y rhestr aros ar gyfer gofal llygaid yn parhau i fod yn sylweddol – ac yn cynrychioli 5 y cant o boblogaeth Cymru gyfan.
- Wrth gwrs, mae argyfwng y coronafeirws wedi effeithio ar wasanaethau gofal llygaid mewn ffordd debyg i feysydd clinigol eraill ond, gan fod cyhoeddi data'r Mesurau Gofal Llygaid wedi cael ei ohirio ers mis Chwefror 2020, nid yw graddfa lawn yr effaith ar restri aros yn glir na chwaith y golled golwg anadferadwy a brofir gan bobl yng Nghymru a allai fod wedi cael ei osgoi gyda thriniaeth amserol.

Mae cyflwyno'r Mesurau Gofal Llygaid wedi cynyddu'r ymwybyddiaeth o reolaeth wael ar restri aros a'r risgiau cysylltiedig. Hefyd mae wedi tynnu sylw at anferthedd y diffyg mewn capasiti, rhywbeth na all Llywodraeth nesaf Cymru ei anwybyddu.

## Datrysiadau a chamau gweithredu blaenoriaeth

Mae'r strategaeth genedlaethol ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol: Cymru Iachach [6], yn darparu'r neges gryfaf hyd yma am yr angen am wella integreiddio a phartneriaeth er mwyn defnyddio adnoddau mor effeithlon â phosib. Mae'n canolbwyntio ar athroniaethau gofal iechyd darbodus, atal ac ymyriadau cynnar fel cyfrwng i wneud y defnydd gorau o adnoddau y mae pen draw iddynt i leihau effaith iechyd gwael.

Mae ein ceisiadau'n cyd-fynd â Cymru Iachach ac argymhellion ymchwiliad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus. Maent yn datgan y camau allweddol gofynnol i drawsnewid gwasanaethau gofal llygaid ac i roi terfyn ar golled golwg y gellir ei osgoi.

Un ffactor allweddol wrth gyflawni gweledigaeth y Llywodraeth ar gyfer gofal llygaid yng Nghymru yw'r angen am ddatblygu cynllun gweithlu gofal llygaid ledled Cymru sydd â chysylltiad clir â data am gapasiti a galw. Mae rhai byrddau iechyd unigol yn dangos esiamplau da o gynllunio gweithlu ar raddfa leol ac yn rhanbarthol. Ond rhaid i raddfa'r newid gynyddu os ydym am ailgynllunio gwasanaethau a chreu capasiti ychwanegol i fodloni'r galw presennol ac yn y dyfodol oddi mewn

i'r system gofal llygaid ar draws Cymru gyfan. Rhaid i'r gwaith hwn gael ei oruchwylio gan y llywodraeth ar lefel genedlaethol.

Rhaid i bob bwrdd iechyd sefydlu cynlluniau gwella manwl i ailgynllunio gwasanaethau fel bod pobl yn cael y gefnogaeth briodol yn y lle priodol ar yr amser priodol. Nid yw busnes fel arfer yn opsiwn ac ni fydd pocedi o arfer da'n rhoi sylw i broblem rhestr aros Cymru gyfan – rhaid i fyrddau iechyd a Llywodraeth Cymru wneud trawsnewid gwasanaethau gofal llygaid gydag uchelgais a chyflymder yn flaenoriaeth.

Ffactor allweddol arall wrth weithredu'r Mesurau Gofal Llygaid yn llwyddiannus yw datblygiad hynod gyflym a gweithredu Cofnod Claf Electronig (CCE) ledled Cymru. Y llynedd, dangosodd ymchwil sut mae systemau gweinyddol a rheoli cleifion gwael yn cael effaith negyddol ar gapasiti. Mae cyllid wedi'i gyhoeddi o'r diwedd ar gyfer datrysiad digidol ond mae amserlenni a gweithredu cyson ar hyn yn hanfodol er mwyn cyflawni.

Mae'n rhaid wrth well integreiddio ar wasanaethau optometreg cymunedol a gwasanaethau llygaid mewn ysbytai. Mae'r symud at ofal sylfaenol yn araf ac anghyson. Mae esiamplau gwych o arfer gorau, ond rhaid wrth gyflymder a chysondeb yn y cyswllt hwn ledled Cymru. Er enghraifft, mae mwy o driniaeth yn cael ei rhoi nawr drwy Ganolfannau Triniaeth Ddiagnostig Offthalmig (CTDdOau) yn y gymuned, ond mae dealltwriaeth a data cyfyngedig o hyd am yr effaith mae CTDdOau yn ei chael ar gynaliadwyedd. Hefyd rhaid cael cyllid cyfalaf yn ei le er mwyn cael adnoddau i'r CTDdOau. Hyd yma, mae amharodrwydd wedi bod ymhlith rhai ymgynghorwyr i ailgynllunio gwasanaethau a modelau newydd mewn gofal sylfaenol ac eilaidd e.e. gwella sgiliau gweithwyr proffesiynol eraill i ymgymryd â rhai elfennau o ofal clinigol.

**Ceisiadau allweddol:**

**Rydym eisiau gweld Llywodraeth nesaf Cymru yn rhoi blaenoriaeth i roi terfyn ar golled golwg diangen drwy wneud y canlynol:**

- Datblygu a goruchwylio cynllun gweithlu cenedlaethol sydd â chysylltiad clir â data am gapasiti a galw.
- Blaenoriaethu trawsnewid gwasanaethau gofal llygaid drwy sicrhau bod gan yr holl fyrddau iechyd gynllun gwelliant clir i gyrraedd y targedau sydd wedi'u datgan yn y Mesurau Gofal Llygaid.
- Sbarduno datblygu a gweithredu'r CCE a sicrhau ei fod yn cael ei ddefnyddio'n gyson ac yn rheolaidd ledled Cymru.
- Cyflymu'r symud tuag at ddarpariaeth gymunedol yn y llwybrau gofal llygaid i ryddhau capasiti ymgynghorwyr.
- Cyhoeddi'r data am gleifion sydd wedi'u neilltuo i R2 a R3 am well tryloywder.

## 2. Goresgyn y rhwystrau amgylcheddol mae pobl ddall ac â golwg rhannol yn eu hwynebu

Dylai pawb allu byw, teithio a mwynhau'r un cyfleoedd.

Mae'r gallu i wneud siwrneiau annibynnol yn ddiogel ac yn hyderus yn rhan hanfodol o fyw bywyd egnïol, iach a llawn a ddisgwylir gan bobl sydd â golwg llawn. Mae pobl ddall ac â golwg rhannol yn dibynnu ar gerdded a thrafnidiaeth gyhoeddus i gynnal eu hannibyniaeth ac i ddefnyddio gwasanaethau allweddol fel gofal iechyd, i deithio i'r gwaith ac i gymdeithasu. Er gwaethaf hyn, mae pobl ddall ac â golwg rhannol yn dweud wrthym bod rhwystrau i siwrneiau, gan gynnwys strydoedd a thrafnidiaeth anhygyrch, yn un o'r heriau mwyaf maent yn eu hwynebu. [7] Mae pedwar allan o bob 10 person yn methu gwneud pob siwrnai maent eisiau neu angen eu gwneud. [8]

Mae'r rhwystrau hyn yn hirsefydlog a dwfn, ond mae pandemig y coronafeirws wedi gwaethygu llawer o'r problemau sy'n bodoli eisoes a gwneud symud yn annibynnol yn anos fyth. Yn anterth y pandemig, neilltuodd Llywodraeth Cymru gyllid i wneud newidiadau sylweddol i gynlluniau strydoedd a gofod cyhoeddus mewn trefi a dinasoedd ledled Cymru fel rhan o'r strategaeth adfer tymor hir. Roedd hyn yn gyfle i adeiladu ar leihau'r defnydd o foduron ac annog newid parhaus tuag at deithio mwy cynaliadwy

Rydym yn cefnogi nod Llywodraeth Cymru i annog y newid hwn yn llawn, ond gall cynlluniau strydoedd achosi anawsterau ar yr adegau gorau i bobl ddall ac â golwg rhannol sy'n defnyddio llwybrau cyfarwydd yn aml, gyda thirnodau a chynlluniau cyfarwydd, i symud o gwmpas. Pan mae amgylcheddau'n cael eu haddasu a chynlluniau newydd yn cael eu cyflwyno heb ystyried yr effeithiau negyddol posib y gall y rhain eu cael ar bobl anabl, gall hyn olygu bod gofod lleol yn dod yn anhygyrch, gan eu heithrio o gymdeithas mewn gwirionedd.

"Mae pethau'n newid o ddydd i ddydd felly dydych chi ddim yn siŵr iawn wrth fynd i ardal wahanol o'r ddinas beth fydd yno y diwrnod canlynol... Fel arfer, rydw i'n eithaf hyderus, ond rydw i wedi colli'r hyder hwnnw i gyd."

O bersbectif pobl â cholled golwg, mae cynllun strydoedd hygyrch yn golygu cyrbiau ac ymylon llwybrau cerdded hawdd eu teimlo, terfyn corfforol rhwng palmantau a lonydd beicio, croesfannau i gerddwyr a reolir gan signal, palmantau cyffyrddadwy, rhwystrau gwrthgyferbyniad lliw hawdd eu gweld a phalmantau penodol heb unrhyw rwystrau.

"Rydw i'n defnyddio ffon hir i fy helpu i fynd rownd rhwystrau ac mae fy ffon i wedi cael ei tharo gan feicwyr yn beicio ar lwybrau troed ac mewn parthau i gerddwyr."

Mae'n hanfodol bod gofod cyhoeddus yn cael ei gynllunio gan feddwl am bobl anabl. Rhaid i'r effaith y gall cynlluniau newydd ei chael ar aelodau anabl ein cymdeithas gael ei harchwilio

a'i deall yn briodol cyn eu gweithredu. Bydd methu gwneud hynny'n gwaethygu ymhellach y teimladau presennol o unigrwydd, ynysu ac eithrio a brofir gan bobl anabl.

## Ein pryderon allweddol

Cynhaliodd yr RNIB Arolwg Teithio ym mis Mai 2020 i gael gwybod mwy am brofiadau pobl ddall ac â golwg rhannol wrth wneud siwrneiau. Canfu'r ymchwil hwn y canlynol:

- dywedodd 80 y cant o'r ymatebwyr bod beiciau'n effeithio ar eu gallu i wneud siwrneiau'n cerdded.
- dywedodd 97 y cant o'r ymatebwyr bod croesfannau i gerddwyr yn cael eu rheoli gan signal yn bwysig neu'n bwysig iawn.
- dywedodd 86 y cant o'r ymatebwyr ei bod yn bwysig neu'n bwysig iawn iddynt allu gwneud siwrneiau cerdded yn annibynnol, heb dywysydd â golwg.
- cytunodd 90 y cant o bobl yn gryf neu'n gryf iawn ei bod yn bwysig iddynt gael opsiwn i deithio ar fws.

Canfu ymchwil yr RNIB i effaith y coronafeirws rhwng mis Ebrill a mis Mai 2020 bod dwy ran o dair (66 y cant) o bobl ddall ac â golwg rhannol yn teimlo'n llai annibynnol, o gymharu â chyn y cyfyngiadau symud. [9] Rydym yn clywed yn gyson gan bobl ddall ac â golwg rhannol bod y newidiadau i ofod cyhoeddus yn gwneud iddynt deimlo nad ydynt yn gallu gadael eu cartrefi. Mae'r adrodd am golli hyder, annibyniaeth a theimladau o ynysu'n bryderus o uchel. .

### Mae'r rhwystrau a nodwyd fwyaf cyffredin yn cynnwys y canlynol:

- Llanast cynyddol ar y stryd a rhwystrau ffisegol fel arwyddion, byrddau hysbysebu, mannau eistedd yn yr awyr agored a rhwystrau amhriodol.
- Ardaloedd defnydd a rennir sy'n gorfodi cerddwyr dall ac â golwg rhannol i ryngweithio â beiciau, e-sgwteri a cherbydau eraill sy'n dod tuag atynt na fyddant yn gallu eu clywed na'u gweld yn aml, gan gynyddu'r risg o wrthdrawiad.
- Seilwaith trafnidiaeth gyhoeddus anhygyrch, fel llwybrau osgoi arosfannau bysiau sy'n gorfodi cerddwyr i groesi llwybrau beicio er mwyn cael mynediad i arosfannau bysiau. Diffyg cyhoeddiadau sain ar gerbydau ac mewn gorsafoedd.
- Arwyddion gweledol yn cael eu defnyddio i farcio cynlluniau newydd a gorfodi cadw pellter cymdeithasol, fel llinellau wedi'u paentio a marciau llawr nad ydynt yn hygyrch i bobl ddall ac â golwg rhannol ac sy'n gwneud symud yn annibynnol yn eithriadol heriol.
- Anawsterau gyda chael gwybodaeth hygyrch am newidiadau i ofod cyhoeddus lleol ac ar gyfer cynllunio siwrneiau.
- Diffyg ymgynghori ystyrlon gyda phobl anabl leol, gan arwain yn aml at gyflwyno newidiadau sy'n gwneud gofod cyhoeddus yn anhygyrch.

- Os oes ymgynghoriadau cyhoeddus yn cael eu cynnal, mae pobl ddall ac â golwg rhannol yn cael eu heithrio yn aml oherwydd diffyg gwybodaeth, cyfathrebu ac ymgysylltu hygyrch.

## Datrysiadau a chamau gweithredu blaenoriaeth

Mae gan bob awdurdod cyhoeddus ddyletswydd o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus i sicrhau eu bod yn diwallu anghenion pobl anabl, a chynnwys pobl anabl yn rhagweithiol yn y gwaith o gynllunio a darparu eu gwasanaethau, fel darparu neu wella llwybrau cerdded a beicio.

Mae lle cyhoeddus sy'n gynhwysol yn ôl cynllun ac yn cael gwared ar rwystrau a wynebir gan bobl anabl yn hwyluso creu Cymru sy'n fwy cyfartal, un o'r saith nod llesiant sydd wedi'u datgan yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Yn yr un modd, mae Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013 yn dweud ei bod yn ofynnol i Weinidogion Cymru a'r awdurdodau lleol, wrth gyflawni swyddogaethau o dan Ddeddf Priffyrdd 1980, gymryd camau rhesymol i wella'r ddarpariaeth a wneir i gerddwyr a beicwyr. Mae'r Ddeddf yn cynnwys yn benodol y bobl anabl sy'n defnyddio cymhorthion symudedd – fel cŵn tywys a ffyn – o dan y diffiniad o "gerddwyr a beicwyr". Mae'r ddogfen cyfarwyddyd cynllunio teithio llesol yn ailadrodd yr angen am i lwybrau fod yn gynhwysol drwy gynllun.

**Ceisiadau allweddol:**

**I greu gwelliant gwirioneddol a chreu amgylchedd sy'n gynhwysol ac yn hygyrch i bawb, rhaid i Lywodraeth nesaf Cymru wneud y canlynol:**


- Gwarchod ein palmantau drwy roi terfyn ar unwaith ar unrhyw lwybrau defnydd a rennir newydd, fel bod pobl â cholled golwg yn gallu gwneud siwrneiau yn ddiogel ac yn annibynnol.
- Os oes llwybrau defnydd a rennir yn eu lle eisoes, dylid ailasesu'r rhain ac adfer llwybr troed yn unig er mwyn ailalluogi profiad cerdded diogel, cynhwysol a phositif i bobl ddall ac â golwg rhannol.
- Sicrhau bod gweithredwyr trafnidiaeth a chynlluniau rhentu beiciau ac e-sgwteri yn cymryd camau priodol i sicrhau bod cerddwyr yn cael eu cadw'n ddiogel.
- Sicrhau bod unrhyw seilwaith beicio newydd yn cael ei wahanu oddi wrth balmantau a llwybrau cerdded. Os oes rhaid croesi lôn feicio (h.y. i groesi ffordd neu gyrraedd arosfan bws), rhaid gosod croesfannau a reolir gan gerddwyr yn eu lle.
- Gweithredu i sicrhau bod awdurdodau lleol sydd heb gadw at gyfarwyddyd yn briodol yn cywiro hyn cyn gynted â phosib.

- Sicrhau bod yr holl geisiadau a'r wybodaeth am deithio ar-lein, y prosesau archebu a'r prosesau talu yn gwbl hygyrch. Mae hyn yn cynnwys cydweddu â darllenydd sgrin a thechnoleg chwyddo testun a gofynion hygyrchedd eraill.

- Dal awdurdodau lleol yn atebol am gynnal Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb (AEGau) cadarn wrth wneud unrhyw newidiadau i'r amgylchedd adeiledig. Mae hyn yn cynnwys mynd ati'n rhagweithiol ac yn ystyrlon i weithio gyda phobl sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig cyn gweithredu newidiadau a gwneud addasiadau i gynlluniau er mwyn lliniaru rhag unrhyw effeithiau cydraddoldeb niweidiol.

- Creu system o fonitro awdurdodau lleol ledled Cymru i sicrhau y cedwir yn briodol at gyfarwyddyd ac i esbonio beth yw'r canlyniadau am beidio â chydymffurfio.

- Gofyn i gynllunwyr, peirianwyr a phenseiri roi hygyrchedd i bobl anabl a dealltwriaeth drwyadl o gynllunio cynhwysol wrth galon eu rhaglen ddatblygu bersonol eu hunain ac yn elfen ganolog yn eu gwaith yn y dyfodol mewn amgylcheddau adeiledig.








## 3. Mynd i'r afael â'r loteri cod post cysylltiedig â gwasanaethau adfer golwg

Dylai pob person sy'n cael diagnosis o golled golwg, ble bynnag maent yn byw, allu cael y gefnogaeth y mae arnynt ei hangen i'w grymuso i fyw yn ddiogel a chwarae rhan lawn mewn cymdeithas.

Gall colled golwg fod yn drychinebus ac yn ormod i berson. Ond mae pobl yn gallu, ac yn, addasu i golled golwg a pharhau i fyw bywydau annibynnol a llawn. Yr allwedd i addasu o'r fath yw adfer amserol ac effeithiol.

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae gostyngiad graddol wedi bod yn y gwasanaethau adfer golwg yng Nghymru. O ganlyniad, mae llawer o bobl ddall ac â golwg rhannol yn methu cael y gefnogaeth adfer golwg y mae arnynt ei hangen pan mae arnynt ei hangen.

Mae adfer golwg yn gefnogaeth strwythuredig sy'n cael ei chyflwyno gan Swyddog Adfer ar gyfer Pobl â Cholled Golwg (ROVI), i helpu pobl i addasu i golled golwg ac i alluogi pobl i fyw yn ddiogel ac yn annibynnol a chyfrannu at gymdeithas fel dinasyddion gweithredol.

Mae'n hyfforddiant un i un mewn symudedd (codi allan yn ddiogel ac yn annibynnol), byw o ddydd i ddydd (sgiliau hanfodol rheoli meddyginiaeth, paratoi bwyd a diod, delio â golchi dillad, trefnu tasgau yn y tŷ) a chyfathrebu (rheoli post, defnyddio ffôn a chyfeirio at dechnoleg mynediad).

Hefyd mae ROVIs yn defnyddio eu harbenigedd i asesu amgylchedd cartref er mwyn canfod peryglon posib, ac maent yn galluogi mynediad at addasiadau, offer a chymhorthion na fyddai rhywun â cholled golwg ddiweddar yn gwybod amdanynt fel arall.

Mae'n eithriadol bwysig bod y gefnogaeth arbenigol hon yn cyrraedd pobl yn gyflym, gan ei bod yn canolbwyntio ar sicrhau annibyniaeth a hybu lles, ac yn cysylltu'r rhai â cholled golwg o'r newydd ag asiantaethau cefnogi lleol a sefydliadau cefnogi cenedlaethol a all gynnig llawer o adnoddau eraill i'w cefnogi.

Mae ymchwil gan Brifysgol Caerdydd yn dangos gwelliant llawer mwy mewn swyddogaeth weledol i gyfranogwyr sydd wedi derbyn adferiad gweledol o gymharu â'r rhai ar restri aros. Hefyd mae adborth ansoddol gan gyfranogwyr yr un astudiaeth yn dangos bod 89% yn teimlo bod yr ymyriad o help neu o help eithriadol. [10]

> "Heb unrhyw olwg o gwbl, roedd yn newid fy meddylfryd i o "fethu gwneud" i ddod o hyd i ffordd wahanol o wneud pethau. Mae fy ROVI i wedi dysgu sgiliau newydd i mi sy'n gwneud i mi deimlo'n ddiogel yn fy nghartref fy hun, a pharhau'n annibynnol."

Hefyd mae darpariaeth amserol o wasanaethau adfer golwg yn sicrhau manteision economaidd sylweddol. Mae strategaethau ataliol cynnar yn helpu i sicrhau nad yw costau problemau cysylltiedig yn codi. Er enghraifft, yng

Nghymru, amcangyfrifir bod 15,300 o bobl â cholled golwg dros 65 oed yn cael codwm bob blwyddyn. O blith y codymau hyn, gellir priodoli 7,210 yn uniongyrchol i golled golwg. [11]

Yn 2011, amcangyfrifwyd bod codymau yng Nghymru yn costio £67 miliwn yn uniongyrchol i'r GIG bob blwyddyn [12] a nododd ymchwil yn 2013 bod cost codymau yng Nghymru yn gysylltiedig â golwg yn unig yn amcangyfrif o £25 miliwn bob blwyddyn. [13] Gyda nifer y bobl â cholled golwg ar gynnydd, bydd y ffigur hwn wedi cynyddu'n ddramatig yn ystod y 7 mlynedd ddiwethaf.

Dangosodd ymchwil annibynnol gan y Swyddfa ar gyfer Rheolaeth Gyhoeddus bod gwasanaethau adfer golwg nid yn unig yn cyfrannu at ddiwallu cyfres o anghenion a brofir gan bobl â golwg rhannol, ond bod y gwerth ariannol o ganlyniad i'r gwasanaethau hyn – ar ffurf osgoi, lleihau neu ohirio costau – yn llawer iawn mwy na'r costau ariannol o'u darparu ar gyfer y sector iechyd a gofal cymdeithasol. Dywed yr adroddiad bod hyn yn cyfateb i arbediad ar gyfartaledd o £4,487 am bob atgyfeiriad, mwy na thair gwaith cost y gwasanaeth. [14]

## Ein pryderon allweddol

Mae'r gefnogaeth hon yn fwy angenrheidiol nag erioed o ystyried y lefelau digynsail o newid rydym yn eu profi fel cymdeithas. Mae tirlun ein trefi a'n dinasoedd sy'n newid o hyd fel ymateb i'r coronafeirws yn golygu bod mynediad i wasanaethau adfer amserol yn hanfodol i alluogi pobl â cholled golwg i fyw yn ddiogel a chyfrannu at eu cymunedau fel dinasyddion gweithredol.

Fodd bynnag, mae tystiolaeth o 2018 yn dangos bod loteri cod post o ran gwasanaethau adfer ledled Cymru, gan effeithio'n negyddol ar bobl ddall ac â golwg rhannol. [15] Nid yw'r sefyllfa wedi gwella yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

- Dim ond wyth awdurdod lleol yng Nghymru sy'n bodloni safonau gofynnol y Gymdeithas o Gyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol (ADSS Cymru) a'r Asiantaeth Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol o 1 ROVI am bob 70,000 o'r boblogaeth.
- Os gweithredir arfer gorau, mae pobl yn cael gwasanaeth effeithlon, ond mewn rhai ardaloedd o Gymru mae pobl yn aros am hyd at 12 mis i weld ROVI. Nid yw'r loteri cod post yma gyda darpariaeth yn dderbyniol.
- Os yw'r safon ofynnol o 1 ROVI am bob 70,000 yn cael ei bodloni, mae pobl yn cael eu gweld yn gynt.
- Ar hyn o bryd mae 31.7 o ROVIs cyfwerth â llawn amser a 7.7 o gynorthwywyr ROVI yn ymarfer yng Nghymru. Mae canllawiau arfer da yn awgrymu y dylid cael 44.9 ROVI cyfwerth â llawn amser. Rydym yn disgwyl i chwe ROVI ymddeol yn ystod y bum mlynedd nesaf.

Eisoes mae rhestr aros sylweddol o bobl yng Nghymru'n aros am asesiad a gwasanaethau adfer golwg. Mae'r rhesymau dros hyn yn gymhleth ond yn cynnwys y canlynol:

- Nid yw adfer golwg yn cael ei ystyried fel blaenoriaeth uchel gan awdurdodau lleol.
- Prinder ROVIs arbenigol ac mae'r nifer hwn yn gostwng yn raddol.
- Awdurdodau lleol yn gynyddol amharod i ymrwymo cyllid hyfforddi ar gyfer y cwrs gradd sylfaen dwy flynedd sy'n ofynnol i fod yn ROVI cymwys.
- Nid oes cyrsiau ar gael ym Mhrifysgolion Cymru – mae'r Gwasanaeth Derbyn i Brifysgolion a Cholegau (UCAS) yn rhestru cwrs o'r fath ar hyn o bryd mewn un sefydliad yn unig yn y DU ar gyfer blwyddyn academaidd 2020/21.
- Gall y broses o gyflwyno Tystysgrifau Golwg Rhannol (CVI) fod yn araf, gan effeithio ar y ddarpariaeth o gefnogaeth adfer a chofrestru.
- Unigolion ddim yn gwybod am eu hawliau i raddau helaeth, a natur y gefnogaeth ddylai fod ar gael.
- Rhai awdurdodau lleol yn gohirio gwasanaethau adfer fel ymateb i COVID-19, a ROVIs yn cael eu symud o ddyletswyddau adfer fel ymateb i bwysau rheng flaen, a fydd wedi cynyddu amseroedd aros yn sicr. Os cynhelir asesiadau, maent yn cael eu gwneud dros y ffôn ac mae anghenion yn cael eu nodi nad oes modd eu diwallu nes bod gwasanaeth wyneb yn wyneb yn ailddechrau.

Gyda disgwyl i nifer y bobl ddall ac â golwg rhannol gynyddu 20 y cant erbyn 2030, bydd y sefyllfa hon yn gwaethygu'n ddramatig os na weithredir mewn unrhyw ffordd. Mae'n hanfodol bod awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru yn buddsoddi yn y gweithlu hwn nawr.

## Datrysiadau a chamau gweithredu blaenoriaeth:

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, ynghyd â'r egwyddorion sylfaenol a'r cod ymarfer sy'n sail iddi, yn rhoi pwyslais clir ar atal ac ymyriadau cynnar i leihau cynyddu i angen critigol, gan gynnwys drwy gefnogaeth adfer golwg i bobl ddall ac â golwg rhannol. [16]

Mae Cymru Iachach yn datgan gweledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer dyfodol lle mae pawb yng Nghymru'n gallu parhau i fod yn egnïol ac yn annibynnol, yn eu cartrefi eu hunain, am gyn hired â phosib. [17]

I wneud y weledigaeth hon yn realiti, rhaid i gynllunio gweithlu tymor hir ar gyfer y gweithlu ROVI arbenigol fod yn flaenoriaeth. Byddai ehangu'r cynllun Prentisiaeth Gradd, o 2021 ymlaen, i gynnwys hyfforddi ROVIs yn gam allweddol i roi sylw i'r rhestr aros ac i sicrhau bod anghenion yn y dyfodol yn cael eu diwallu.

Rhaid i awdurdodau lleol gymryd tri cham clir i sicrhau eu bod yn diwallu anghenion pobl ddall ac â golwg rhannol – gweld, cynllunio a darparu. Mae'r broses hon yn amlinellu'r camau angenrheidiol i sicrhau mynediad amserol at adfer. [18]

1. Gweld: rhaid i bawb â golwg rhannol gael asesiad wyneb yn wyneb arbenigol gyda ROVI.
2. Cynllunio: rhaid i bawb fod â chynllun yn ei le, yn nodi canlyniad yr asesiad. Rydym yn argymell bod awdurdodau lleol yn mabwysiadu'r 10 Egwyddor Arfer Da mewn Adfer Golwg sydd wedi'u cytuno'n genedlaethol ac sy'n nodi y dylai pob person dall ac â golwg rhannol gael ei weld a chael asesiad arbenigol gan rywun â'r sgiliau, yr wybodaeth, yr hyfforddiant a'r cymwysterau priodol o fewn 28 diwrnod i gyswllt cychwynnol â'r awdurdod lleol.
3. Darparu: rhaid i unrhyw gefnogaeth adfer golwg ddechrau o fewn 12 wythnos i gyswllt cychwynnol y person â'r awdurdod lleol.



**Ceisiadau allweddol:**

**Rhaid i Lywodraeth nesaf Cymru wneud y canlynol:**

- Dal awdurdodau lleol yn atebol am ddarparu gwasanaethau adfer arbenigol.
- Gweithredu ledled Cymru gyfan wrth gynllunio a buddsoddi yn nyfodol y gweithlu arbenigol hwn.
- Ychwanegu adfer golwg at y rhestr o gymwysterau cymwys ar gyfer yr ardoll prentisiaethau.
- Sicrhau bod awdurdodau lleol yn datblygu ac yn gweithredu llwybr cyfeirio rhwng gwasanaeth golwg gwan Cymru a gofal cymdeithasol i oedolion. Bydd hyn yn helpu gydag adnabod pobl â cholled golwg yn gynnar a gwella ymyriadau adfer golwg, gan leihau'r angen am ofal a chefnogaeth tymor hir pellach wrth i olwg ac iechyd meddwl ddirywio.
- Goruchwylio ymgyrch ledled Cymru i godi ymwybyddiaeth o rôl y ROVI ymhlith gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol a chodi ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r rôl fel darpar lwybr gyrfaol.
- Datgan yn glir bod rhaid i wasanaethau ataliol, gan gynnwys adfer golwg, gael blaenoriaeth ochr yn ochr â gwasanaethau anghenion a aseswyd, yn hytrach nag yn olynol, ar ôl i gyfyngiadau'r coronafeirws ddod i ben.

## 4. Ymgorffori arferion gwybodaeth hygyrch yn y GIG a gwasanaethau cyhoeddus ehangach

**Dylai pobl â cholled golwg dderbyn gwybodaeth yn y fformat sy'n gweithio iddynt hwy, yn ôl hawl a heb frwydr.**

Yn gyson, nid yw pobl â cholled golwg yng Nghymru yn cael gwybodaeth mewn fformatau priodol neu cyfathrebir yn gyson â hwy mewn ffordd sy'n amhriodol i'w hanghenion. Mae hyn yn golygu nad ydynt yn gallu cael mynediad at wybodaeth yn yr un ffordd â phobl â golwg llawn ac maent yn methu gwneud penderfyniadau am eu gofal iechyd eu hunain yn seiliedig ar wybodaeth.

Cyflwynwyd Safonau Cymru Gyfan ar gyfer Gwybodaeth a Chyfathrebu Hygyrch ar gyfer pobl â cholled synhwyraidd gan Lywodraeth Cymru yn 2013. Roeddent yn datgan lefel y ddarpariaeth o wasanaethau y dylai pobl â cholled synhwyraidd [19] ddisgwyl ei chael pan maent angen gofal iechyd.

Ers mis Tachwedd 2017, mae meddygfeydd yng Nghymru wedi gallu adnabod a chofnodi anghenion gwybodaeth a chyfathrebu eu cleifion sydd â cholled synhwyraidd. Mae gallu pellach yn cael ei ddatblygu i alluogi atgyfeiriadau ond, hyd yma, ychydig iawn o gynnydd sydd wedi cael ei wneud ac nid yw'r Safonau wedi arwain at newid amlwg i bobl ddall ac â golwg rhannol yng Nghymru.

"Mae pobl yn gofyn i mi yn gyson, er fy mod i'n glaf ers o leiaf 12 mlynedd, ddarllen a llofnodi pethau nad ydw i'n gallu eu gweld.""

"Er fy mod i'n gofyn am negeseuon sain, maen nhw'n dal i gyfathrebu am fy apwyntiadau drwy lythyr ac felly rydw i'n gorfod gofyn i rywun ei ddarllen i mi."

### Ein pryderon allweddol

Mae cyfathrebu aneffeithiol gyda chleifion â cholled synhwyraidd yn fater diogelwch cleifion. Mae cleifion yn wynebu risg o beidio â derbyn y gefnogaeth briodol i alluogi iddynt chwarae rhan lawn mewn ymgynghoriadau gyda gweithwyr gofal iechyd proffesiynol a'u deall.

Rhaid i ddarparwyr iechyd a gwasanaethau cyhoeddus eraill fodloni eu rhwymedigaethau cyfreithiol o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 i wneud addasiadau rhesymol ar gyfer pawb ag anabledd, rhag iddynt wynebu risg ddiangen ac er mwyn gallu profi'r un lefelau o annibyniaeth a phreifatrwydd â phawb arall. Rhaid ystyried anghenion cyfathrebu unigolion a darparu gwybodaeth yn y fformat hygyrch maent yn ei ffafrio yn ôl hawl a heb frwydr.

Mae pandemig COVID-19 wedi tynnu sylw at bwysigrwydd gwneud gwybodaeth hygyrch yn arfer safonol. Mae gan un o bob pump o bobl 75 oed a hŷn golled golwg ac mae gan lawer o bobl ddall ac â golwg rhannol gydafiachedd, sy'n eu gwneud yn grŵp risg uchel.

Mae'n hanfodol felly bod gwybodaeth am newidiadau mewn polisi, gweithdrefnau neu gyngor yn cael ei chynhyrchu mewn amrywiaeth o fformatau hygyrch, gan roi'r cyfle gorau iddi gyrraedd y rhai sy'n wynebu risg uchel o'r feirws. Nawr, yn fwy nag erioed, rhaid i bobl ddall ac â golwg rhannol allu cael mynediad at wybodaeth hanfodol mewn fformat maent yn gallu ei darllen er mwyn iddynt allu cadw eu hunain yn ddiogel.

Er enghraifft, ni chafodd y llythyrau gwarchod, a anfonwyd at 130,000 o bobl yng Nghymru sy'n wynebu'r risg fwyaf o salwch difrifol oherwydd COVID-19, eu hanfod mewn fformatau hygyrch at bobl â cholled golwg, er eu bod yn cynnwys gwybodaeth a allai achub bywydau.

Nid oedd y cyfathrebu digidol o ffynonellau swyddogol yn gwbl hygyrch ac, mewn rhai achosion, mae hynny'n wir o hyd, yn arbennig ar gyfer defnyddwyr darllenydd sgrin.

Er bod y rhan fwyaf o sefydliadau wedi ymateb yn brydlon, roedd y ffaith bod sefydliadau'r trydydd sector wedi gorfod bod yn adweithiol a thynnu eu sylw at hyn, yn tynnu sylw at y realiti nad yw gwybodaeth hygyrch yn arfer safonol i lawer o sefydliadau'r sector cyhoeddus.

"Rydw i'n berson annibynnol iawn ond rydw i'n teimlo'n ddi-rym oherwydd y diffyg gwybodaeth hygyrch sydd wedi cael ei hanfon am Covid-19. Mae'n teimlo fel bod pobl â cholled golwg yn cael eu hanghofio. Rydw i'n teimlo ein bod ni wedi cael ein trin fel ein bod ni ddim yn bodoli."

Canfu ymchwiliad Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau'r Senedd i COVID-19 ddiffygion yn y ddarpariaeth o wybodaeth a chyfarwyddyd mewn fformatau hygyrch yn ystod y pandemig. Galwodd am benodi arweinydd hygyrchedd yn Llywodraeth Cymru i oruchwylio cynhyrchu'r holl wybodaeth iechyd cyhoeddus allweddol a gwybodaeth arall mewn fformatau hygyrch. [20]

Mae ymchwil yr RNIB a gynhaliwyd ym misoedd Ebrill a Mai 2020 yn cefnogi canfyddiadau'r Pwyllgor. Mae'n dangos bod un o bob pedwar (26 y cant) ymatebydd wedi cael anhawster cael gwybodaeth ysgrifenedig mewn fformat y gallent ei ddarllen a dywedodd 17 y cant eu bod wedi cael anhawster cael gwybodaeth ar-lein.[21]

## Datrysiadau a chamau gweithredu blaenoriaeth

Dylai'r GIG a gwasanaethau cyhoeddus eraill sicrhau bod pobl â cholled golwg yn cael eu holi'n gyson am eu hanghenion cyfathrebu. Dylid cofnodi'r rhain yn systematig a darparu'r holl wybodaeth yn y fformat hygyrch maent yn ei ffafrio.

Dylai hyn gynnwys derbyn llythyrau, canlyniadau profion a negeseuon atgoffa am apwyntiadau mewn fformat hygyrch drwy hawl a heb frwydr, gan alluogi'r un lefelau o annibyniaeth a phreifatrwydd ag a ddisgwylir gan bawb arall.

Dylai staff allweddol mewn byrddau iechyd a sefydliadau cyhoeddus eraill gael gwell hyfforddiant i ddeall anghenion cyfathrebu pobl ddall ac â golwg rhannol yn well, a sut i fodloni eu dewisiadau cyfathrebu.

Dylai systemau fod yn eu lle mewn gofal sylfaenol ac eilaidd er mwyn cofnodi dewisiadau cyfathrebu cleifion ac i gefnogi staff i gyflawni'n rhagweithiol y dewisiadau a nodir gan gleifion.

Dylai Llywodraeth Cymru benodi arweinydd hygyrchedd cenedlaethol i ymgorffori arfer gwybodaeth hygyrch yn yr holl wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru.

**Ceisiadau allweddol:**

**Rhaid i Lywodraeth nesaf Cymru wneud y canlynol:**

- Ymgorffori arferion gwybodaeth hygyrch yng ngwasanaethau'r GIG a gwasanaethau cyhoeddus ehangach fel bod pobl â cholled golwg yn cael gwybodaeth mewn fformat sy'n gweithio iddynt hwy.
- Gofyn i fyrddau iechyd roi gwybod am gynnydd gyda gweithredu'r Safonau a rhaid i adroddiadau fod ar gael ar gyfer craffu cyhoeddus.
- Esbonio beth yw'r canlyniadau ar gyfer byrddau iechyd sy'n methu cydymffurfio â'r Safonau.
- Ychwanegu testun sain ac alt. at bob fideo gan sefydliadau'r sector cyhoeddus er mwyn sicrhau eu bod yn hygyrch i ddefnyddwyr darllenydd sgrin.
- Mabwysiadu dull dim goddefgarwch o weithredu gyda negeseuon anhygyrch ar gyfryngau cymdeithasol gan unrhyw sefydliad yn y sector cyhoeddus, gan ddileu ac ailbostio unrhyw rai a ganfyddir fel rhai anhygyrch wedyn.
- Creu cam wedi'i gofnodi wrth ddatblygu holl ohebiaeth y sector cyhoeddus, wedi'i gymeradwyo gan unigolyn a enwir, bod anghenion hygyrchedd nam synhwyraidd y Ddeddf Cydraddoldeb wedi cael eu diwallu.
- Penodi arweinydd hygyrchedd cenedlaethol sy'n gyfrifol am sicrhau bod hygyrchedd yn cael ei ymgorffori yng ngohebiaeth y sector cyhoeddus a sicrhau cydymffurfiaeth.
- Cydlynu hyfforddiant lefel cenedlaethol i'r holl staff perthnasol.
- Cydlynu ymgyrch genedlaethol i sicrhau bod pobl ddall ac â golwg rhannol yn fwy ymwybodol o'u hawliau.

## 5. Arwain y ffordd ym mholisi cydraddoldeb y DU drwy ddiwygio'r modd mae'r sector cyhoeddus yn ymgysylltu â phobl â cholled golwg, a phobl anabl eraill

Rhaid i bobl anabl gael llais cryfach wrth i benderfyniadau gael eu gwneud.

Yn rhy aml, mae pobl ddall ac â golwg rhannol yn wynebu rhwystrau sy'n atal cynhwysiant am nad yw'r byd o'u cwmpas wedi'i gynllunio gan feddwl amdanynt hwy Mae rhwystrau cymdeithasol, amgylcheddol ac agweddol yn golygu bod pobl anabl yn methu cymryd rhan yn gyfartal yn aml, ac mae llai o gyfleoedd iddynt o gymharu â phobl heb anabledd.

Mae'r Model Cymdeithasol o Anabledd yn esbonio bod y rhan fwyaf o'r problemau mae pobl anabl yn eu hwynebu'n cael eu hachosi gan y ffordd mae cymdeithas wedi'i threfnu. Er enghraifft, nid oes rheswm i berson â cholled golwg fethu gwneud siwrneiau yn annibynnol pe bai trafnidiaeth gyhoeddus a'r amgylchedd adeiledig yn cael eu cynllunio mewn ffordd gwbl gynhwysol. Yn yr un modd, pe bai pob gwybodaeth ar gael mewn amrywiaeth o fformatau hygyrch, fel sain a braille, ni fyddai unrhyw reswm i berson â cholled golwg fethu cael mynediad at yr wybodaeth hon.

Mae'r Model Cymdeithasol yn ffordd arall o ddeall problemau mynediad ac eithrio cymdeithasol ac mae'n gweld y broblem fel cymdeithas sy'n anablu pobl, heb drin ei holl aelodau'n gyfartal.

Mae'r llywodraeth ar bob lefel yng Nghymru wedi ymrwymo i hybu'r Model Cymdeithasol o Anabledd ac, er bod cynnydd wedi'i wneud, rydym yn parhau i weld esiamplau o anablu a rhwystrau eithrio. Os yw pobl anabl am allu cymryd rhan yn gyfartal mewn cymdeithas brif ffrwd, mae'n rhaid i'r ffordd mae cymdeithas yn cael ei threfnu newid a rhaid i bobl anabl gael llais cryfach mewn penderfyniadau a wneir.

### Ein pryderon allweddol

Mae gan bob awdurdod cyhoeddus ddyletswydd o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus i sicrhau eu bod yn diwallu anghenion pobl anabl, a chynnwys pobl anabl yn rhagweithiol yn y gwaith o gynllunio a darparu eu gwasanaethau.

Wrth weithredu Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus, dylai awdurdodau cyhoeddus gynnal asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb trwyadl a chadarn sy'n datgelu effaith negyddol bosib polisïau arfaethedig mewn pryd i wneud newidiadau iddynt. Er bod y ddeddfwriaeth a'r cyfarwyddyd yn glir, o'n profiad ni nid yw hynny'n trosi'n newid sylfaenol mewn arferion ar y tir. Mewn rhai achosion, nid yw asesiadau effaith yn cael eu cynnal o gwbl, neu maent yn rhai arwynebol. Weithiau mae'n ymddangos bod asesiadau effaith wedi cael eu hysgrifennu er mwyn cyfiawnhau penderfyniad, yn hytrach nag er mwyn gwir ddadansoddi ei effaith.

O’n profiad ni gall Asesiadau o’r Effaith ar Gydraddoldeb (AEGau) fethu adnabod risg, ac felly nid ydynt yn cynnwys mesurau lliniaru. Yn yr un modd, os adnabyddir risg yn briodol, mae’r mesurau lliniaru arfaethedig yn amwys neu’n annigonol yn aml. Gall y canlyniad, wrth roi cynllun neu bolisi ar waith, fel newid i leoliad cyfarwydd, ei wneud yn annisgwyl o beryglus ar gyfer pobl â cholled golwg.

Rydym yn clywed dro ar ôl tro gan ein haelodau am achosion lle mae newidiadau wedi cael eu cyflwyno sy’n creu rhwystrau anfwriadol. Ymhlith yr esiamplau cyffredin mae paentio llinellau gwyn yn sydyn ar balmantau i ddynodi ardal a rennir ar gyfer cerddwyr a beicwyr neu gyflwyno cyffyrdd a chael gwared ar gyrbiau i arafu traffig er budd diogelwch. Ar yr olwg gyntaf, byddai mesurau o’r fath yn ymddangos fel pe baent yn creu gwell amgylchedd i bobl â cholled golwg, ond byddai AEG trwyadl, yn gweithio gyda hwy ac yn ystyried eu safbwyntiau, yn dangos bod y ddwy sefyllfa wedi creu risg iddynt “yn anfwriadol”.

Os cynhelir ymgynghoriadau cyhoeddus, mae pobl ddall ac â golwg rhannol yn teimlo wedi’u heithrio yn aml oherwydd diffyg gwybodaeth a chyfathrebu hygyrch. Ni ddylai ymgysylltu ac ymgynghori â phobl anabl gael ei ystyried fel ymarfer ticio bocsys sy’n cyflawni rhwymedigaeth. Yn hytrach, fel cam allweddol sy’n galluogi llunwyr polisïau i ddeall eu profiadau byw yn llawn, a chyfle i gydgynllynio datrysiadau arloesol sy’n gweithio er mwyn gwella pethau i bawb mewn cymdeithas.

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015 yn sefydlu “egwyddor datblygu cynaliadwy” sy’n dweud wrth sefydliadau sut i fynd ati i weithio tuag at gyflawni’r nodau llesiant a chyflawni eu dyletswyddau o dan y Ddeddf. Mae “cynnwys”, a ddiffinnir fel ‘pwysigrwydd cynnwys pobl sydd â diddordeb mewn cyflawni’r nodau llesiant, a sicrhau bod y bobl hynny’n adlewyrchu amrywiaeth yr ardal y mae’r corff yn ei gwasanaethu’ yn cael ei adnabod fel ffordd allweddol o weithio i gyrff cyhoeddus o dan yr egwyddor. [22]

Mae asesiad diweddaraf Comisiynydd Cenedlaethau’r Dyfodol o gynnydd gyda chyflawni Cymru Sy’n Fwy Cyfartal yn dweud bod arwyddion o gynyddu cyfranogiad a bod llawer o gyrff cyhoeddus yn trafod “cynnwys” a “chydraddoldeb”, ond nid yw’r rhain yn mynd y tu hwnt i ddatganiadau eang o angenrheidrwydd.

Mae’r Comisiynydd yn galw am ddulliau wedi’u targedu’n fwy o weithio gyda grwpiau penodol sy’n wynebu anfantais er mwyn rhoi’r ffordd o weithio ‘cynnwys’ ar waith yn llwyr.[23]



## Datrysiadau a chamau gweithredu blaenoriaeth

Mae llunio polisïau effeithiol yn dibynnu ar alluogi'r rhai sydd wedi'u heffeithio gan bolisi i gymryd rhan yn ei ddatblygiad mewn ffordd ddidwyll. I wneud hyn, rhaid i lunwyr polisïau gynnwys dinasyddion amrywiol yn rhagweithiol yng nghamau cynnar llunio polisïau newydd, er mwyn deall a gwerthfawrogi eu profiadau byw yn llawn.

Dylai ymgynghoriadau gael eu cynllunio a bod yn hygyrch a hwyluso sgyrsiau ystyrlon gyda chymaint o bobl â phosib sydd â phrofiad o'r system, yn enwedig pobl â nodweddion gwarchodedig.


Drwy alluogi cyfranogiad ystyrlon gan bobl ag amrywiaeth o brofiadau a lefelau cyfranogiad mewn polisi – o arbenigwyr a phobl sy'n gwneud penderfyniadau i weithwyr proffesiynol sy'n darparu gwasanaethau a'r "defnyddwyr yn y pen draw" a'u teuluoedd – mae'n llawer mwy tebygol y bydd datrysiadau arloesol sy'n gweithio'n cael eu canfod. Mae hefyd yn rhoi gwell cyfleoedd ar gyfer profi ac yn cynyddu'r tebygolrwydd y bydd unrhyw effeithiau negyddol yn cael eu datrys cyn gweithredu. Mae cael pethau'n iawn y tro cyntaf yn arwain at oblygiadau cost positif a lleihau gwastraff a dyblygu.

Y canlyniad yn y diwedd yw polisïau sy'n fwy ymatebol i anghenion a phrofiadau grwpiau amrywiol ac felly'n llawer mwy tebygol o gyflawni'r canlyniadau bwriadol.

Mae'r dull hwn o weithredu hefyd yn dangos ymatebolrwydd, tryloywder a chynhwysiant y sector cyhoeddus.

Mae cymuned gynyddol o ymarfer yn sefydliadau'r sector cyhoeddus ledled y byd sy'n defnyddio methodolegau cydgynllunio neu gydgynhyrchu i wella sut mae polisi cyhoeddus yn cael ei ddatblygu a'i weithredu. Gan gydweithio â gweithwyr polisi proffesiynol, mae cynllunwyr yn cynnwys yr elfen ddynol yn y broses bolisi ac i greu dolenni adborth cadarnach rhwng polisi a'i effaith ar y tir.

Dylai llywodraethau geisio cydgynhyrchu'r holl bolisïau a gwasanaethau perthnasol gyda phobl anabl mewn ffordd gyfannol yn hytrach nag arwynebol. Fel "arbenigwyr trwy brofiad", mae pobl anabl yn y sefyllfa orau i allu llywio a rhoi gwybodaeth i lywodraethau ac awdurdodau lleol er mwyn sicrhau bod polisïau a gwasanaethau'n gweithio ac yn hygyrch iddynt.



**Ceisiadau allweddol**

- Ymrwymo i ddiwygio'r ffordd mae'r sector cyhoeddus yn ymgysylltu â phobl anabl gan eu cynnwys yn rhagweithiol yn y gwaith o gynllunio gwasanaethau cyhoeddus o'r camau cynharaf, er mwyn canfod a goresgyn rhwystrau.
- Adolygu'r arfer a'r hyfforddiant ar gyfer staff y sector cyhoeddus wrth ddatblygu AEGau er mwyn ystyried effaith newidiadau polisi ar bobl anabl.
- Sicrhau bod yr holl ymgynghoriadau cyhoeddus a gweithgarwch ymgysylltu yn y dyfodol yn gwbl hygyrch i bobl ddall ac â golwg rhannol drwy gynhyrchu gwybodaeth mewn amrywiaeth o fformatau hygyrch.
- Meithrin diwylliant o arloesi yn y sector cyhoeddus, gan edrych ar bosibiliadau ar gyfer mabwysiadu egwyddorion cynllunio a chynhyrchu ar y cyd â phobl anabl er mwyn gwella gwasanaethau lleol.

## References


[1]. Deloitte Access Economics (2017). Incidence and risk of sight loss and blindness in the UK. RNIB

[2]. RNIB Sight Loss Data Tool: **www.rnib.org.uk/professionals/knowledge-and-research-hub/key-information-and-statistics/sight-loss-data-tool**

[3]. Deloitte Access Economics (2017). Incidence and risk of sight loss and blindness in the UK. RNIB

[4]. Senedd Cymru: Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus (2019), Rheoli apwyntiadau dilynol cleifion allanol ar draws Cymru

[5]. Cwestiwn ysgrifenedig a gyflwynwyd gan Angela Burns AS, a atebwyd gan y Gweinidog ar gyfer Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar 1 Gorffennaf 2020: **https://record.assembly.wales/WrittenQuestion/80673**

[6]. Llywodraeth Cymru (2018), Cymru Iachach: Ein Cynllun ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol

[7]. RNIB (2019), Ymchwil rhwystrau a wynebir gan bobl ddall ac â golwg rhannol: **www.rnib.org.uk/health-social-and-education-professionals/knowledge-and-research-hub/research-reports/general-research/barriers-faced-blind-and-partially-sighted**

[8]. RNIB (2015), Ymchwil My Voice: **www.rnib.org.uk/knowledge-and-research-hub-research-reports-general-research/my-voice**

[9]. Yr RNIB (2020), Arolwg ar Effaith y Coronafeirws: **www.rnib.org.uk/campaigning/priority-campaigns/inclusive-journeys/effect-lockdown-and-social-distancing-blind-and-partially-sighted-people**

[10]. Acton, Molik, Court, Margrain (2016), Effect of a Home Visit–Based Low Vision Rehabilitation Intervention on Visual Function Outcomes: An Exploratory Randomized Controlled Trial

[11]. Adnodd Data Colled Golwg yr RNIB: **www.rnib.org.uk/professionals/knowledge-and-research-hub/key-information-and-statistics/sight-loss-data-tool**

[12]. Davidson, Nicol, Roys and Beaumont (2011), The cost of poor housing in Wales

[13]. NICE 2013

[14]. Y Swyddfa ar gyfer Rheolaeth Gyhoeddus (2017), Demonstrating the impact and value of vision rehabilitation – a report to RNIB

[15]. Fforwm Golwg Cymru (2018), Cyflwr y Genedl – Gwasanaethau i oedolion â cholled golwg yng Nghymru

[16]. Llywodraeth Cymru (2015), Deddfa Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014: Yr Hanfodion

[17]. Llywodraeth Cymru (2018), Cymru Iachach: Ein Cynllun ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol

[18]. **www.rnib.org.uk/sites/default/files/10%20principles%20of%20Good%20Practice%20in%20Vision%20Rehabilitation.pdf**

[19]. **https://gov.wales/sites/default/files/publications/2019-04/all-wales-standards-for-accessible-communication-and-information-for-people-with-sensory-loss-easy-read_0.pdf**

[20]. Senedd Cymru: Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau (2020), Amlygu'r materion: anghydraddoldeb a'r pandemig

[21]. Yr RNIB (2020), Arolwg ar Effaith y Coronafeirws: **www.rnib.org.uk/campaigning/priority-campaigns/inclusive-journeys/effect-lockdown-and-social-distancing-blind-and-partially-sighted-peopl**e

[22]. Llywodraeth Cymru (2015), Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015: Yr Hanfodion

[23]. Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol ar gyfer Cymru (2020), Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol



RNIB Cymru

Royal National Institute of Blind People Cymru
Jones Court, Stryd Womanby
Caerdydd, CF10 1BR
Rhif Ffôn: **029 2082 8500**

E-bost: **nathan.owen@rnib.org.uk**
Gwefan: **rnib.org.uk/cymru**

**Dilynwch ni ar gyfryngau cymdeithasol:**

**facebook.com/rnib.cymru**

**twitter.com/rnibcymru**

**youtube.com/user/rnibuk**

**rnib.org.uk**

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael hefyd mewn print
mawr ac ar ffurf sain a braille.

RE200714

© Elusen Gofrestredig yng Nghymru a Lloegr (226227), yr Alban (SC039316) a'r Ynys Manaw (rhif. 1226).
Hefyd yn gweithredu yng Ngogledd Iwerddon.